OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 36 (Cy.3)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *11 Ionawr 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *9 Chwefror 2005* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 7(1) a (3) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau o'r farn y caiff Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ar y cyd â'i holl swyddogaethau eraill, gyflawni'n briodol swyddogaethau ychwanegol a roddir drwy hyn, ac yntau wedi ymgynghori fel yr ymddengys ei bod yn briodol iddo ei wneud yn unol ag adran 7(2) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1988, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2005 a daw i rym ar 9 Chwefror 2005.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;

ystyr "gwladwriaeth berthnasol" ("*relevant state*") yw aelod-wladwriaeth o'r Gymuned Ewropeaidd, Gwlad yr Iâ, Norwy, Liechtenstein neu'r Swistir;

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 89/48/EEC(**3**) ar system gyffredinol ar gyfer cydnabod diplomâu addysg uwch a ddyfernir ar ôl cwblhau addysg a hyfforddiant proffesiynol sy'n para am o leiaf dair blynedd; ac

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) (Y System Gyffredinol Gyntaf) 2005(**4**).

(**1**) 1998 p.30. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2940 (Cy.281)). Diwygiwyd adran 7(3) gan baragraff 78 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32).

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) OJ Rhif L19, 24.1.89, t.16.

(**4**) O.S. 2005/18.

**Swyddogaethau Ychwanegol**

**3.**—(1) Mae'r Cyngor, ac yntau wedi'i ddynodi yn unol â'r Rheoliadau, i gael swyddogaeth ystyried ceisiadau a rhoi awdurdodiadau i arfer proffesiwn athro neu athrawes ysgol yng Nghymru at ddiben y Gyfarwyddeb.

(2) Mae'r Cyngor i roi cyngor a gwybodaeth i'r cyhoedd am y gofynion i gydnabod yng Nghymru gymwysterau addysgu a gafwyd mewn gwladwriaeth berthnasol.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

11 Ionawr 2005

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Ymhlith swyddogaethau'r Cyngor y mae sefydlu a chynnal cofrestr athrawon, cyhoeddi Cod Ymarfer, gosod safonau ymddygiad ac arferion proffesiynol a ddisgwylir gan athrawon cofrestredig, arfer pwerau disgyblu mewn perthynas ag athrawon cofrestredig a phobl sy'n gwneud cais am gael eu cofrestru a rhoi cyngor am faterion addysgu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Cyngor wedi'i bennu'n awdurdod dynodedig at ddibenion Rheoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) (Y System Gyffredinol Gyntaf) 2005 a wnaed o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae'r Rheoliadau hynny yn rhoi effaith i Gyfarwyddeb 89/48/EEC ar system gyffredinol ar gyfer cydnabod diplomâu addysg uwch a ddyfernir ar ôl cwblhau addysg a hyfforddiant proffesiynol sy'n para am dair blynedd o leiaf. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi swyddogaeth gweithredu fel awdurdod dynodedig i'r Cyngor. Ac yntau'n awdurdod dynodedig, mae'r Cyngor i ymdrin â cheisiadau oddi wrth bobl sydd wedi cymhwyso mewn gwladwriaeth berthnasol (aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd, Gwlad yr Iâ, Norwy, Liechtenstein a'r Swistir) am gael cydnabod eu cymwysterau proffesiynol.

Hefyd, rhoddir swyddogaeth ychwanegol i'r Cyngor, sef rhoi gwybodaeth a chyngor i'r cyhoedd am ofynion cydnabod yng Nghymru gymwysterau addysgu a gafwyd mewn gwladwriaeth berthnasol.